



**CREU BUSNES CYNALIADWY**

**DYLUNIO CYNALIADWY AR GYFER Y DYFODOL >**

Cynllun y sesiwn



**START  
SOMETHING**

Mewn partneriaeth â:

**Howden Group  
Holdings**

# CIPOLWGW

Dyma'r sesiwn olaf yn yr uned 'Creu Busnes Cynaliadwy'. Yn y sesiwn yma, byddwch chi'n edrych ar eco-arloesi. Mae eco-arloesi yn creu cyfle i lawer o fusnesau bach, ac mae'r maes yma sy'n datblygu yn bwysig i'r economi werdd. Gall eco-arloesi fod yn syniad ar gyfer busnes newydd, fel mathau newydd o dechnolegau; gwefrydd ffôn cludadwy sy'n defnyddio ynni solar efallai, neu gynnyrch, fel plastig sy'n dadelfennu'n gyflym, neu greu gwasanaethau newydd, fel cyfleuster casglu gwastraff bwyd i wneud compost. Yn y sesiwn yma, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddylunio cynnyrch neu wasanaeth newydd sy'n ceisio bod mor gynaliadwy â phosibl.

Cofiwch: Mae'r pwnc yma'n newydd ac yn datblygu, felly mae tystiolaeth a gwybodaeth newydd yn cael ei chyhoeddi bob dydd. Er ein bod ni'n ceisio cadw'r cynnwys yma'n gyfredol, rydym yn eich annog yn frwd i gynnwys unrhyw wybodaeth newydd ac wedi'i phrofi a allai ddod i'r amlwg.



## DEUNYDDIAU

- ✓ Fideo 'Green innovation'
- ✓ Deunyddiau i wneud melin wynt
- ✓ [Cyfarwyddiadau i greu melin wynt](#)
- ✓ Papur a beiros
- ✓ Cyfrifiaduron (dewisol)



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cynaliadwyedd - Deilliannau Dysgu: Deall egwyddorion cynaliadwyedd economaidd; Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynaliadwy

# DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Dweud beth mae eco-arloesi yn ei olygu
- ✓ Deall sut mae'r ffordd mae cynnyrch yn cael ei ddylunio'n gallu helpu i fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol, fel creu ynni drwy ddefnyddio gwynt
- ✓ Dylunio cynnyrch sy'n mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol

# GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<a href="#">Arloesi wrth ddylunio: Creu melin wynt</a>	25-30 munud	<a href="#">03</a>
<a href="#">Cynnyrch cynaliadwy</a>	35-40 munud	<a href="#">04</a>
<a href="#">Sesiwn 'Dragons' den'</a>	Dependent	<a href="#">06</a>
<a href="#">Dirwyn i ben</a>	10-15 munud	<a href="#">07</a>

## PWY SYDD WEDI CREU CYNLLUN Y SESIWN YMA?

Cafodd cynllun y sesiwn yma ei greu ar y cyd â Justine Oakes. Mae Justine Oakes CEnv, MIEEnvSc, MIEMA yn weithiwr proffesiynol ym maes yr amgylchedd, ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ar hyn o bryd, Justine yw'r Rheolwr Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Suffolk, a'r arweinydd Busnes ac Ymchwil ar gyfer Sefydliad Cynaliadwyedd Suffolk. Gan weithio mewn partneriaeth â chynlluniau cynaliadwyedd lleol a chenedlaethol, mae Prifysgol Suffolk yn brifysgol drawsnewidiol sy'n ymgorffori traddodiadau Prifysgol gorau'r Deyrnas Unedig, ac yn eu cysoni â byd modern o gyflogaeth ac entrepreneuriaeth.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Design for  
the Future | 02

# ARLOESI WRTH DDYLUNIO: CREU MELIN



## AMSER

25-30 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfarwyddiadau i greu melin wynt – <https://www.idealhome.co.uk/diy-and-decorating/how-to-make-a-paperwindmill-easy-step-by-step-instructions-51144> (neu rywbeth tebyg)
- ✓ Papur trwm neu gerdyn
- ✓ Sychwr gwallt (dewisol)
- ✓ Tâp gludiog
- ✓ Pin gwthio neu bin map â phen fflat

## CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Esboniwch i'r grŵp ei bod hi'n bosibl greu ynni drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy o ffynonellau ym myd natur, fel yr haul, dŵr a gwynt. Mae'r ynni yma'n adnewyddadwy oherwydd ei fod yn cael ei greu'n naturiol a'i fod ar gael bob amser. Hefyd, nid yw'n greu unrhyw effeithiau amgylcheddol felly mae'n ynni glân, ac nid yw'n achosi llygredd nac yn ychwanegu at newid hinsawdd.
2. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach, a dweud wrthyn nhw y byddan nhw'n greu melin wynt a fydd yn dangos sut mae ynni adnewyddadwy'n gweithio.
3. Rhannwch y cyfarwyddiadau ar gyfer greu melin wynt, a rhoi papur trwm a cherdyn i bob grŵp. Dylech annog y dysgwyr i ddilyn y cyfarwyddiadau'n ofalus i greu eu melin wynt.

4. Ar ôl i'r dysgwyr gael digon o amser i greu eu melinau gwynt, byddan nhw naill ai'n gallu chwythu neu ddefnyddio sychwr gwallt i droi'r melinau gwynt. Eglurwch fod hyn yn dangos sut mae grym o'r aer (gwynt) yn gallu symud gwrthrych.

Gallwch egluro hyn ymhellach drwy ddweud bod y grym sy'n cael ei greu gan y gwynt i greu'r symudiad yn gallu cael ei ddefnyddio ar raddfa lawer mwy, a'i droi'n ynni gan dyrbinau gwynt. Mae tyrbinau gwynt yn troi'r grym yma'n drydan, sy'n gallu cael ei ddefnyddio gan adeiladau neu ei storio mewn batris mawr i'w defnyddio pan fydd angen.

5. Gofynnwch i'r dysgwyr beth maen nhw'n meddwl yw'r heriau posibl wrth ddefnyddio ynni'r gwynt fel yr unig ffordd o greu trydan. Darllenwch awgrym yr Hwylusydd isod i gael yr ateb cywir.

### AWGRYM YR HWYLUSYDD

Dydy'r gwynt ddim yn chwythu drwy'r amser – byddai angen llawer o dyrbinau gwynt arnom ni i gynhyrchu digon o bŵer cyson i greu ynni dibynadwy. Dyna pam mai ar y môr y mae llawer o ffermydd gwynt, lle mae yna ffynhonnell ddibynadwy o wynt.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Design for  
the Future | 03

# CYNNYRCH CYNALIADWY >



## AMSER

35-40 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Fideo 'Green innovation'
- ✓ Papur a beiros

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i edrych ar eco-arloesi heddiw. Chwaraewch y fideo 'green innovations', cyn trafod beth maen nhw wedi'i ddysgu o'r fideo neu beth oedd yn ddiddorol.
2. Rhowch y dysgwyr mewn grwpiau bach, a rhoi gwybod iddyn nhw eu bod newydd gael 'cyllid' i sefydlu busnes newydd sydd wedi cael gwahoddiad i ddylunio eco-gynnyrch newydd neu syniad ar gyfer gwasanaeth. Gall fod yn unrhyw beth o dan haul, ond mae'n rhaid iddo geisio datrys problem sy'n cael effaith ar yr amgylchedd. Er enghraifft:
  - Tynnu plastig o'r môr
  - Casglu gwastraff bwyd sy'n cael ei daflu gan fwytai, a'i droi'n gompost
  - Neu gallai hyd yn oed fod yn ddarn o dechnoleg sy'n diffodd offer trydan yn awtomatig pan fydd yn sylweddoli nad ydych chi'n defnyddio'r offer
3. Yn eu grwpiau, gall y dysgwyr feddwl am eu syniadau eu hunain neu ddewis dylunio cynnyrch o un o'r diwydiannau hyn:
  - Y diwydiant dillad
  - Y diwydiant harddwch
  - Y diwydiant esgidiau
4. I helpu'r dysgwyr i feddwl am syniadau, gallech chwarae unrhyw rai o'r fideos canlynol iddyn nhw, neu rannu rhai o'r cynhyrchion cynaliadwy sy'n bodoli'n barod sydd wedi cael eu rhestru yn y blwch isod:
  - Gwneud y diwydiant harddwch yn fwy cynaliadwy: <https://youtu.be/4Yrv4ssyLXg>
  - Ffasiwn cyflym: <https://youtu.be/ZoiU8sprXpQ>
  - Esgidiau cynaliadwy: [https://youtu.be/boV\\_TkmBtho](https://youtu.be/boV_TkmBtho)
5. Rhowch ddigon o amser i'r grwpiau feddwl am syniadau cychwynnol am yr hyn y bydden nhw'n hoffi ei ddylunio. Bydden nhw'n gallu cael trafodaeth neu nodi eu syniadau ar ddiagram gwe pry cop, ar bapur plaen neu ar bapurau 'post-it'.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Design for  
the Future | 04



6. Pan fydd gan y dysgwyr ychydig o syniadau, byddan nhw'n gallu dewis pa un y bydden nhw'n hoffi ei ddatblygu.

Dylech eu hannog i feddwl am y canlynol a nodi:

- Beth yw ein cynnyrch neu ein gwasanaeth?
- Pa broblem amgylcheddol mae'n ceisio ei datrys?
- Sut bydd yn gwneud hyn?

7. Dewch â'r grŵp at ei gilydd, a gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu syniadau cychwynnol am eu cynnyrch neu eu gwasanaeth.

Dylech annog y dysgwyr o'r grwpiau eraill i roi rhywfaint o adborth:

- Beth maen nhw'n ei hoffi am y cynnyrch hyd yma?
- Beth maen nhw'n meddwl sy'n gweithio'n dda?
- Beth fyddai'r grŵp yn gallu ei wella?

### CYNHYRCHION CYNALIADWY SY'N BODOLI'N BAROD

- 'Lledr' wedi'i wneud o ffibrau pîn-afal
- Gemwaith planhigion
- Pebyll cynaliadwy sy'n casglu dŵr glaw
- Cartrefi cynaliadwy sydd wedi cael eu gwneud o boteli plastig
- Cychod sy'n cael eu pweru gan ynni solar
- Ceir trydan
- Brwsys dannedd sydd wedi cael eu gwneud o bren
- Llwyau y gallwch eu bwyta (wedi cael eu gwneud o fwyd)
- Sylwer: efallai y byddwch chi am ddod o hyd i luniau o rai o'r cynhyrchion hyn i'w rhannu â'ch grŵp



# SESIWN 'DRAGONS' DEN' >



## AMSER

Dependent



## DEUNYDDIAU

- ✓ Cyfrifiaduron (dewisol)
- ✓ Deunyddiau i greu cyflwyniad



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cymryd rhan mewn cynllun sy'n cefnogi cynaliadwyedd economaidd

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gan fod y grwpiau wedi meddwl am eu syniad i arloesi, byddwch chi'n dweud wrthyn nhw eu bod wedi cael eu dewis i gymryd rhan mewn 'Sesiwn Arbennig o Dragons' Den' i gyflwyno eu syniad i banel o 'fuddsoddwyr' (chi ac ychydig o oedolion eraill o bosibl), a fydd yn dewis cynnyrch neu wasanaeth buddugol i 'fuddsoddi' ynddo. Neu, os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn dewis enillydd, gallech chi gael pleidlais fel grŵp.
2. Esboniwch i'r dysgwyr fod angen iddyn nhw siarad am ryw 3-5 munud, ac y gallan nhw gyflwyno eu syniadau drwy boster, dyluniad gwefan, cyflwyniad PowerPoint neu unrhyw ddull arall sy'n gweithio'n dda. Dylech eu hannog i ateb y tri chwestiwn o'r gweithgaredd blaenorol, ac i fod mor greadigol â phosibl!
3. Ar ôl i'r dysgwyr gael digon o amser i baratoi eu cyflwyniad, gofynnwch iddyn nhw gymryd eu tro i gyflwyno eu syniad i banel 'Dragons Den'. Gwnewch yn siŵr eich bod chi a gweddill y bobl ifanc yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi adborth cadarnhaol.
4. Gallwch chi naill ai ddewis enillydd, neu gynnal pleidlais fel grŵp i ddewis y cynnyrch/gwasanaeth gorau a mwyaf cynaliadwy. Efallai y byddech chi am feddwl am wahanol wobrau ar gyfer gwahanol grwpiau – ee,'Y Siaradwyr Gorau', 'Y Mwyaf Creadigol', ac ati.

## AWGRYM YR HWYLUSYDD

Os yw'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, gallai eu cyflwyniadau/syniadau ynghylch busnes cynaliadwy helpu i ddangos eu bod wedi cymryd rhan mewn cynllun sy'n cefnogi cynaliadwyedd economaidd.

Gallech hyd yn oed annog y dysgwyr i feddwl am syniadau busnes y bydden nhw'n gallu eu rhoi ar waith mewn bywyd go iawn, a chysylltu hyn â'r uned Cyflawni Prosiect Menter.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Design for  
the Future | 06

# DIRWYN I BEN >



## AMSER

10-15 munud




## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o ffyrdd y gallech chi gefnogi cynaliadwyedd economaidd
- ✓ Amlinellu ffyrdd y byddwch chi'n parhau i hyrwyddo cynaliadwyedd yn y dyfodol

# CAMAU'R GWETHGAREDD >

1. Efallai y byddwch chi am gael trafodaeth fyfyrionol derfynol i gloi. Gallech drafod:
  - Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus o ran eich dealltwriaeth o gynaliadwyedd?
  - Fyddwch chi'n edrych yn wahanol ar eich gweithredoedd chi, ar weithredoedd pobl eraill ac ar weithredoedd busnesau? Ym mha ffyrdd?
  - Beth ydych chi'n meddwl y byddai llywodraethau a sefydliadau mawr yn gallu ei wneud i helpu i ofalu mwy am yr amgylchedd?
  - Beth fydddech chi'n gallu ei wneud i gefnogi sefydliadau neu fusnesau sy'n gynaliadwy?
  - Beth ydy'ch gobeithion chi ar gyfer dyfodol yr amgylchedd?
2. Os yw'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, dylech eu hannog i lenwi'r daflen waith Cefnogi cynaliadwyedd economaidd. Fe ddylen nhw bwysu a mesur popeth maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned yma i'w helpu i lenwi'r daflen.
3. Efallai y byddwch chi am drefnu eich bod chi'n ailedrych ar gynaliadwyedd bob ychydig wythnosau neu bob mis. Gallai hynny fod ar ffurf trafodaethau am unrhyw beth amserol sydd yn y newyddion am gynaliadwyedd, neu gallech greu Clwb Cynaliadwyedd sy'n gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ac sy'n gynaliadwy.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Design for  
the Future | 07